Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Comisiynydd Heddlu a Throseddu

# Dyfed-Powys

# Adroddiad y Panel Craffu Cymunedol

## Dyddiad: 25 Chwefror 2026

# Cynnwys

Cyflwyniad ........ 2

Canllawiau ar Ddefnyddio Grym a Stopio a Chwilio ........ 3

Crynodeb o’r canfyddiadau ........ 5

*Cadarnhaol* ........ 5

*Meysydd i’w gwella* ........ 5

Canfyddiadau’r Panel Craffu Cymunedol ar Ddefnyddio Grym ........ 6

Canfyddiadau’r Panel Craffu Cymunedol ar Stopio a Chwilio ........ 11

Adborth cyffredinol gan y panel i'r heddlu: ........ 16

Adborth cyffredinol gan y panel ynghylch plismona: ........ 18

# Cyflwyniad

Mae Panel Craffu Cymunedol Dyfed Powys yn chwarae rhan allweddol wrth ddarparu goruchwyliaeth annibynnol a her adeiladol i arferion plismona, gan ganolbwyntio’n benodol ar feysydd fel Stopio a Chwilio a Defnyddio Grym. Ei bwrpas yw gwella tryloywder, hyrwyddo atebolrwydd, a helpu i feithrin ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd mewn plismona drwy gynnwys aelodau o'r gymuned mewn gweithgarwch craffu.

Ystyriwyd dulliau craffu amgen a chymesur, gan gynnwys mabwysiadu dull ymgysylltu sy'n seiliedig ar risg, er mwyn cynnal goruchwyliaeth effeithiol wrth ehangu mynediad a chyfranogiad. Mae hyn yn cefnogi amcanion y Cynllun Cydraddoldeb Strategol i gynyddu amrywiaeth grwpiau gwirfoddol a sicrhau eu bod yn gwbl gynrychioliadol o'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

# Canllawiau ar Ddefnyddio Grym a Stopio a Chwilio

Er mwyn sicrhau dealltwriaeth y panel o ddelweddau fideo defnyddio grym a stopio a chwilio, rhoddodd rhingyll heddlu o'r uned plismona ffyrdd fewnbwn ar bwrpas pwerau defnyddio grym wrth gadw'r heddwch a chynnal y gyfraith, gan bwysleisio pwysigrwydd cyfiawnhad dros eu defnydd.

Atgoffwyd y panel o'r ystod o fesurau defnyddio grym sydd ar gael i swyddogion heddlu, sy'n cynnwys:

- Gosod gefynnau
- Amddiffynnydd
- Sgiliau heb arfau
- Chwistrell lidiog
- Ataliadau llawr
- Ataliadau corfforol
- Dyfeisiadau taser
- Arfau tanio
- Arbedwr poeri a brathu
- Defnyddio cŵn
- Pastwn
- Cyfathrebu tactegol
- Arall / Addasu

Yn ogystal, rhoddodd y rhingyll heddlu fewnbwn ar bwerau'r heddlu y mae'n rhaid cydymffurfio â nhw mewn perthynas â defnyddio grym a stopio a chwilio, gan gynnwys:

- Cyfraith gyffredin
- Adran 3 o Ddeddf Cyfraith Troseddol 1967

- Adran 1 a 117 o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (PACE)
- Adran 135 a 136 o Ddeddf Iechyd Meddwl (2005)
- Adran 5 a 6 o Ddeddf Galluedd Meddyliol (2005).
- Adran 23 o Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau

Yn ogystal â'r uchod, pwysleisiodd y rhingyll heddlu hefyd bwysigrwydd bod y panel yn deall canfyddiad y swyddog (ystyried yr hyn y mae'n ei wybod ar y pryd), asesu a oedd y defnydd o rym yn briodol ac a ystyriwyd defnyddio grym fel dewis olaf.

Ar gyfer stopio a chwilio, cyfrannodd y rhingyll heddlu yr acronym GOWISELY:

- **G**rounds – amlinellu'r rhesymau dros chwilio
- **O**bject – nodi unigolyn y chwiliad
- **W**arrant – os nad yw'r swyddog yn gwisgo lifrai
- **I**dentity – enw a rhif y swyddog
- **S**tation – nodi'r orsaf y mae'r swyddog yn gweithio ynddi
- **E**ntitlement – copi o'r cofnod
- **L**egal – y pŵer cyfreithiol a ddefnyddir
- **Y**ou – esbonio i'r unigolyn ei fod yn cael ei 'ddal at ddibenion chwiliad'

# Crynodeb o'r canfyddiadau

*Cadarnhaol*

- Dangosodd swyddogion amynedd, tosturi a thymer rhagorol drwy gydol pob fideo a arsylwyd.
- Barnwyd bod swyddogion wedi dilyn deddfwriaeth a chanllawiau. Nid oedd unrhyw arwydd o gamymddwyn.

*Meysydd i'w gwella*

- Cwestiynwyd y defnydd o chwistrell fanililamid asid pelargonig (PAVA) yng nghofnod 1 ochr yn ochr ag asesiad risg rhai swyddogion.
- Ni ystyriwyd bod y sail ar gyfer chwiliad hanesyddol yn ddigon trylwyr ar gyfer cofnod Stopio a Chwilio 3.
- Mae angen ystyried stopio a chwilio ymhellach ar leoliad pan gaiff unigolyn ei stopio a'i chwilio er mwyn amddiffyn ei urddas a'i barch yng nghofnod 4.
- Dylai swyddogion ystyried defnyddio LanguageLine wrth ddelio â'r sawl nad ydynt yn siarad Saesneg fel eu hiaith gyntaf, er mwyn sicrhau eu bod yn deall eu hawliau.

# Canfyddiadau’r Panel Craffu Cymunedol ar Ddefnyddio Grym

Cofnod 1

| **Amgylchiad:** *Mae siopleidr wedi cael ei arestio mewn archfarchnad. Mae cydymaith y siopleidr yn feddw ac yn rhwystro swyddogion rhag eu harestio. Mae'n ofynnol i swyddogion ddefnyddio grym i geryddu'r cydymaith.* | |
|---|---|
| **Sylwadau gan y panel** | **Ymateb yr heddlu** |
| Roedd hi'n anodd gwybod beth ddigwyddodd. Roedd cymaint o weiddi ac roedd yn ymddangos bod y camera corff (fideo camera corff o'r digwyddiad) yn canolbwyntio ar y person a arestiwyd yn unig. | *O safbwynt diogelwch, dylai'r swyddog fod wedi troi i wynebu'r bygythiad. Ymddengys bod y swyddog yn canolbwyntio ar yr unigolyn yn cael ei arestio tra bod y cydweithiwr yn delio â'r bygythiad. Mae'r swyddogion hyn yn eithaf newydd ac efallai nad ydyn nhw'n ymwybodol o hyn.* |
| Oedd gan y swyddog arall ei gamera corff? Nid oedd yn ymddangos bod digon o fideo i farnu a oedd y grym a ddefnyddiwyd yn rhesymol. | *Oedd, roedd gan y swyddog arall gamera corff, ac roeddwn i eisiau dangos y fideo â’r mwyaf o wybodaeth. Yn anffodus, roedd camera corff y swyddog arall yn rhy agos at yr unigolyn ac felly ni fyddai wedi bod o gymorth i'r panel.* |
| Am ba hyd mae chwistrell (analluogi) PAVA yn para a pham y cafodd ei ddefnyddio? | *Am tua 30 munud, gydag awyr agored a dŵr yn cael eu defnyddio i lanhau'r hylif o lygaid yr unigolyn. Yn fy marn i, ni ddylid bod wedi defnyddio PAVA; ond mae'n anodd atal rhywun a pheidio â'u hanafu. Byddwn i wedi hoffi clywed “paid â gwrthwynebu neu mi fyddaf yn dy chwistrellu di”. Weithiau mae hyn yn ddigon o rwystr i atal defnyddio’r chwistrell mewn gwirionedd, sy'n* |

| | |
|---|---|
| | *anghyfforddus iawn i'r swyddogion a'r unigolyn. Yn yr achos hwn, roedd yr unigolyn eisoes ar y llawr ac felly roedd hyn yn golygu nad oedd angen defnyddio chwistrell PAVA yn fy marn i. Yn ystod proses dysgu a datblygu swyddogion, cânt eu haddysgu i asesu yr hyn sydd o'u hamgylch am risg, asesu a yw eu cydweithiwr mewn perygl a barnu beth fyddai'r canlyniadau pe baent yn ymgilio wrth aros am gymorth gan uned arall a oedd gerllaw.* |

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

Cofnod 2

| **Amgylchiad:** *Mae menyw wedi cael ei harestio ar ôl rhedeg i ffwrdd oddi wrth swyddogion. Mae'r fenyw dan sylw wedi'i hamgylchynu gan ei ffrindiau ac aelodau eraill o'r cyhoedd sy'n ymyrryd â'r arestio.* | |
|---|---|
| **Sylwadau gan y panel** | **Ymateb yr heddlu** |
| Roedd y fenyw a gafodd ei harestio yn gofyn i aelod o'r cyhoedd roi'r gorau i recordio gyda'i ffôn symudol. Dylai swyddogion fod wedi ymateb er mwyn ei lles, ei hurddas a'i diogelwch drwy ofyn i'r aelod o'r cyhoedd roi'r gorau i ffilmio. | *Nid yw'n drosedd gyhoeddus recordio rhywun ar eu ffôn mewn man cyhoeddus. Roedd yr aelod o'r cyhoedd yn dweud bod hyn yn cael ei wneud i amddiffyn y fenyw, ac yn anffodus mae swyddogion yn gyfarwydd â dod ar draws y mater hwn.*<br><br>*Byddwn i'n cytuno bod swyddogion i bob golwg wedi anwybyddu'r cais a'r aelod o'r cyhoedd. O'm safbwynt i, o leiaf, gallai'r swyddogion fod wedi gofyn i'r aelod o'r cyhoedd roi'r gorau i recordio gan fy mod yn cytuno â chi, roedd hwn yn ffactor a oedd yn dwysáu'r sefyllfa.* |
| Pam cafodd y fenyw ei rhoi mewn gefynnau y tu ôl i'w chefn? Dywedodd bod hyn yn achosi poen iddi. | *Dangosodd swyddogion eu bod yn ei throi o gwmpas ac yn cynnig addasu ei gefynnau er mwyn ei gwneud hi'n fwy cyfforddus. Pan fydd unigolyn mewn poen, bydd ganddo feddylfryd ymladd neu ffoi a all roi swyddogion a'r cyhoedd mewn perygl. Mae angen i swyddogion gydnabod hyn fel ffactor a allai ddwysáu'r sefyllfa hefyd. Un ystyriaeth fyddai gen i o ran rhoi gefynnau o flaen y* |

| | |
|---|---|
| | *corff, yw y gallai hyn beri risg pe bai'r fenyw'n penderfynu defnyddio'r gefynnau fel arf.*<br><br>*Gan fod swyddogion yn ei chludo o gryn bellter i fan yr heddlu, byddwn i'n cytuno y byddai ei rhoi mewn gefynnau o flaen ei chorff wedi gwneud y broses hon yn fwy cyfforddus i'r fenyw yn ogystal â'r swyddogion.* |
| Clywyd llawer o leisiau yn y ffilm. Pam wnaeth swyddogion wrando ar y fenyw a gafodd ei harestio am gyhyd? | *Gallaf weld bod swyddogion yn ceisio tawelu'r amgylchiadau a bod y person yn gywir o dan eu gofal; ond, unwaith yr oedd swyddogion yn hebrwng y fenyw i'r fan, dylent fod wedi defnyddio mwy o rym er mwyn cyflymu'r broses.*<br><br>*Roeddwn i'n meddwl bod swyddogion wedi gwneud yn eithaf da i wrando ar y fenyw a'i ffrindiau nad oeddent o bosibl â'r gallu i ddeall beth oedd yn digwydd. Pe na bai'r swyddogion wedi mabwysiadu'r dull hwn, gallai'r amgylchiadau fod wedi bod yn fwy ymfflamychol na'r hyn a ddigwyddodd mewn gwirionedd.* |
| Oes ffordd arall o arestio rhywun heb ei roi mewn gefynnau? Yn y pen draw, menyw ifanc yw hon; a oedd grym yn angenrheidiol? | *Rhaid i swyddogion gyfiawnhau defnyddio gefynnau. Mae nifer o elfennau y mae'n rhaid i swyddogion eu hystyried wrth ddodi gefynnau, gan gynnwys y risgiau, yr anhysbys, cydymffurfiaeth, iaith y corff a/neu ymddygiad ymosodol. Mae swyddogion yn yr achos hwn* |

| | |
|---|---|
| | *yn credu bod y fenyw hon yn peri risg anhysbys iddi hi ei hun ac eraill ac mae ganddi hanes o redeg i ffwrdd. Mae hi'n hysbys am ei bod wedi ymosod a hunan-niweidio yn y gorffennol a gallai fod perygl ei bod yn cuddio eitem finiog. Yn y pen draw, mae swyddogion yn ceisio ei hatal er mwyn sicrhau ei bod yn cael y gefnogaeth gywir mewn lle diogel.* |

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

# Canfyddiadau'r Panel Craffu Cymunedol ar Stopio a Chwilio

Cofnod 3

| **Amgylchiad:** *Mae dyn ifanc Du yn cael ei stopio a'i chwilio mewn llety â chymorth.* | |
|---|---|
| **Sylwadau gan y panel** | **Ymateb yr heddlu** |
| A yw het yn cyfrif fel dillad allanol? | *Yn fy marn i, mae'n ddillad allanol oni bai ei fod yn cael ei ddefnyddio at ddibenion crefyddol fel twrban i rywun sy'n Sikh neu hijab i Fwslim benywaidd sy'n ymarfer eu cred.* |
| Pam oedd rhywun yno yn gwylio'r stopio a'r chwilio yn cael ei gynnal? | *Mae'r lleoliad mewn llety â chymorth i bobl ifanc. Gweithiwr cymorth oedd y mynychwr, a gofynnodd y dyn ifanc iddo fod yno.* |
| A oes problem bod y chwiliad yn cael ei chynnal ar sail mater hanesyddol yn hytrach na gwybodaeth bresennol? | *Rhaid i'r wybodaeth sy'n golygu bod y swyddog wedi cynnal y chwiliad fod yn ddiweddar. Ni allwch stopio a chwilio rhywun yn seiliedig ar hanes, a dyma pam y mae'n rhaid trin pwerau'r heddlu yn y maes hwn yn ofalus. Yn anffodus, nid oes diffiniad swyddogol ar gyfer y term 'diweddar' yn ôl ei ystyr diffiniedig. O ran cyd-destun yr achos hwn, byddwn i'n asesu nad yw'r sail yn ddigon trylwyr.* |

Cofnod 4

| **Amgylchiad:** *Honnir bod menyw feddw wedi cymryd sylwedd anghyfreithlon mewn tafarn.* | |
|---|---|
| **Sylwadau gan y panel** | **Ymateb yr heddlu** |
| A fyddai'r swyddogion yn cael chwilio band gwallt y fenyw? | *Byddant. Mae swyddogion gwrywaidd hefyd yn gallu chwilio unigolion benywaidd, ond rhaid iddynt ddangos gofal a bod yn ymwybodol o fod mewn man cyhoeddus. Os oes eitemau wedi eu cuddio ym mra neu ddillad isaf menywod, ni fydd stopio a chwilio yn dod o hyd i'r rhain gan fod y rhain yn rannau personol o'r corff.* |
| Beth yw'r gyfraith pan mae'n ymddangos bod rhywun yn analluog? A ellir eu stopio a'u chwilio o hyd, gan na fyddant yn deall sail eu chwiliad? | *Yn ôl y gyfraith, mae angen i swyddogion gael pŵer cyfreithiol trwy roi'r wybodaeth i'r unigolyn hyd yn oed os yw wedi meddwi. Dylid ysgrifennu sail y cyfiawnhad a phan fydd yr unigolyn yn sobr, bydd ganddo fynediad at y cofnodion hynny o'r chwiliad.* |
| A allai'r swyddogion fod wedi mynd â'r fenyw o'r neilltu? Fe'i gwnaed o flaen y dafarn ac yn y stryd o flaen pawb. | *Nid oes dim byd penodol yn y gyfraith sy'n nodi bod yn rhaid iddyn nhw wneud hyn; serch hynny, rwy'n cytuno, dylid bod wedi ystyried urddas a gwedduster y fenyw drwy gynnig mynd â hi i ystafell breifat yn y dafarn neu gallent fod wedi ystyried mynd o amgylch y gornel allan o olwg y cyhoedd.* |

| | |
|---|---|
| A oes pwrpas i wirio rhywun am feintiau bach o gyffuriau yn hytrach na thargedu cyflenwyr cyffuriau? | *Mae gan yr heddlu dîm blaenoriaeth ar gyfer Grwpiau Troseddau Cyfundrefnol difrifol er mwyn mynd i'r afael â chyflenwyr cyffuriau.*<br><br>*Yn y pen draw, mae gan swyddogion gyfrifoldeb cyfreithiol i drin cyffuriau lefel isel hefyd. Yn y bôn, mae'r sylwedd honedig yn sylwedd anghyfreithlon. Mae'r heddlu bellach yn symud i'r cyfeiriad lle byddwn yn ystyried defnyddio dulliau gwaredu amgen sy'n cynnwys rhybuddiad cymunedol, sy'n annog dargyfeirio neu ymyrraeth i atal defnydd yn y dyfodol.*<br><br>*Mae'r tîm plismona bro lleol yn canolbwyntio'n benodol ar ddelio â throseddau lefel isel gan y gwelir bod y digwyddiadau lefel isel hyn yn gallu effeithio ar y gymuned dros amser ac mae'n bwysig i'r heddlu gael eu gweld i fod yn rhagweithiol wrth ddatrys y problemau hyn fel camddefnyddio sylweddau.* |
| Pe bai rhywun yn drawsryweddol, sut fyddai'r heddlu'n ymdrin â hyn o ran stopio a chwilio? | *Rhaid i swyddogion sefydlu a yw'r unigolyn yn drawsryweddol neu'n drawswisgwr gan fod y rhain yn ddau beth gwahanol. Os bydd swyddogion yn dod ar draws rhywun sydd wedi'i wisgo fel menyw ond sy'n ymddangos yn wryw, dylai swyddogion ofyn sut maen nhw'n nodi eu hunaniaeth eu hunain. Bydd hyn yn penderfynu pa swyddog fydd yn cynnal y chwiliad.* |

| | |
|---|---|
| A yw pob stopio a chwilio yn cael ei recordio ar gamera corff ac a yw swyddogion yn gallu dileu fideo? | *Mae polisi'r heddlu yn pennu bod rhaid cofnodi pob stopio a chwilio drwy gamera corff. Caiff y fideo ei gadw am 30 diwrnod a rhaid ei gofnodi a'i dagio am saith mlynedd.*<br><br>*Mae camera corff yn recordio'n gyson ac mae'n recordio 30 eiliad cyn i chi ei droi ymlaen. Ei bwrpas yw amddiffyn swyddogion ac aelodau'r cyhoedd. Y broblem y mae swyddogion yn ei hwynebu yw bod camera corff yn cael ei sbarduno i recordio'n awtomatig bob tro y tynnir dyfais taser allan neu y caiff golau glas ei droi ymlaen mewn cerbyd; felly, nid yw'n anarferol i swyddogion uwchlwytho 30-40 o fideos fesul shifft. Rhaid iddyn nhw gofio tagio a chadw'r fideo ar ôl pob shifft, ac nid yw hyn bob amser yn digwydd.* |

Cofnod 5

| **Amgylchiad:** *Mae dyn o leiafrif ethnig wedi cael ei stopio mewn cerbyd ar ffordd A. Nid yw'r gwryw yn siarad Saesneg fel ei iaith gyntaf. Mae'r cerbyd a'r person wedi cael eu hatal oherwydd arogl sylwedd anghyfreithlon.* | |
|---|---|
| **Sylwadau gan y panel** | **Ymateb yr heddlu** |
| Pam roedd y swyddog yn chwilio'r car heb i'r gyrrwr fod yn bresennol? | *Mae dau unigolyn yn y car. Mae'r gyrrwr eisoes wedi cael ei arestio ar ôl nodi ei fod yn cuddio eitem waharddedig. Y person a welwyd oedd y teithiwr a dylid trin y person hwn ar wahân i'r gyrrwr; ac felly, nid oes angen caniatâd i chwilio'r car.* |
| Yn amlwg, mae problem yn codi oherwydd y rhwystr iaith. Mae'r swyddog yn glir nad yw'r dyn yn deall yr hyn sy'n cael ei ddweud. Roedd y swyddog yn rhoi GOWISELY ar waith, er gwaethaf y ffaith nad oedd y dyn yn ei ddeall. | *Cytunais â'r pwynt hwn. Dydw i ddim yn gweld unrhyw werth mewn rhoi hawliau cyfreithiol i rywun os nad yw'n eu deall. Yng nghyfrifiadur llechen y swyddog, mae swyddogaeth i alw llinell iaith a fydd yn gofyn i'r unigolyn nodi ei ddewis iaith. Dylai'r swyddog fod wedi ystyried hyn. Rwy'n clywed llawer o achosion lle bydd swyddogion yn dweud, "ydych chi'n deall?" Mae'n amlwg nad oes dim yn cael ei ddeall, ac rwy'n ystyried y byddai hyn yn adborth da i'r swyddog dan sylw.* |
| O ran diogelwch personol, sut dylai swyddogion ystyried diogelu eu hunain? A allai'r swyddog fod wedi chwilio'r dyn yn agosach at gist y cerbyd? | *Gelwir y term y mae swyddogion yn ei ddysgu yn 'cyswllt a diogelu'. Y safon aur yw asesu risg yr unigolyn yn ddeinamig drwy'r amser. Dylai fod swyddog cysgodi yn cynnal llinell weledol yn barhaol. Yn ddelfrydol, byddwn i eisiau i ddau swyddog drafod ag unigolyn sydd* |

| | |
|---|---|
| | *wedi'i dynnu o'r cerbyd, un i arwain y trafodaethau a'r llall wrth ochr yr unigolyn; ac os yn bosibl, trydydd yn cynnal chwiliad y cerbyd. Fodd bynnag, fel heddlu ardal wledig, nid yw hyn bob amser yn bosibl.*<br><br>*Mae'r ffordd y cynhaliwyd y chwiliad yn seiliedig ar ddewis personol. Mae yna elfen o risg bob amser pan fyddwch chi'n arfer pwerau'r heddlu ar aelodau'r cyhoedd. Yn yr achos hwn, nid oes cyfiawnhad i roi gefynnau ar yr unigolyn gan nad yw wedi peri risg ac mae'n rhaid i swyddogion reoli hyn.* |

## Adborth cyffredinol gan y panel i'r heddlu:

| **Sylwadau gan y panel** | **Ymateb yr heddlu** |
|---|---|
| Dw i'n meddwl bod rhaid i swyddogion fod â llawer iawn o amynedd. | *Mae aelodau'r cyhoedd yn ymddiried ynom i drin pawb yn deg. Dyma sut mae'n rhaid i ni gynnal a meithrin ymddiriedaeth a hyder.* |

| | |
|---|---|
| Ym mhob un o'r tri achos stop a chwiliad a welwyd, roedd yr unigolion yn ymddangos yn dawel. Mae'n rhaid ei bod hi'n anodd cynnal chwiliad pan nad yw rhywun yn cydymffurfio. | *Er ei bod yn her, mae deddfwriaeth ac ymddiriedaeth y cyhoedd yn golygu bod yn rhaid i ni ymdrechu i drin pawb ag urddas a pharch. Mae swyddogion wedi'u hyfforddi ac yn ymgymryd â'r cyfrifoldeb hwn pan fyddant yn ymuno â'r heddlu, a rhaid gweithredu pwerau'r heddlu yn ofalus bob amser.* |
| Ydych chi'n fodlon â lefel ymatebion yr heddlu / adnoddau'r heddlu sydd ar gael?<br><br>Rydw i wedi dod ar draws digwyddiad personol lle yn achos un person, heb gefndir mewn troseddu, aeth pedwar cerbyd heddlu i'w gartref, mae hyn yn ymddangos yn anghymesur? | *Byddai hyn yn dibynnu ar yr asesiad risg, yr amgylchiadau, a hefyd, er mwyn gwneud y mwyaf o'n hadnoddau, weithiau mae swyddogion yn gyrru cerbyd un criw. Bydd swyddogion yn cynnig cefnogaeth ar gyfer risg. Nid yw nifer y cerbydau sy'n bresennol yn gynrychioliadol o faint o swyddogion sydd yn bresennol mewn gwirionedd.*<br><br>*Yn hanesyddol, arferai swyddogion fynychu popeth; ond, mae technoleg wedi gwella i ganiatáu gostwng y galw ar swyddogion. Mae systemau ar waith i benderfynu a oes angen i adnoddau'r heddlu fynychu.*<br><br>*Yn bersonol, rwy'n gweld adfywiad mawr yng ngweithgareddau'n timau plismona bro, sy'n parhau'n hanfodol i ddatrys problemau ein cymuned. Mae cyllid ychwanegol yn cael ei wthio i'r maes hwnnw ac rwy'n amau y bydd y gymuned yn sylwi ar hyn.* |

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

# Adborth cyffredinol gan y panel ynghylch plismona:

| Sylwadau gan y panel | Ymateb y Comisiynydd Heddlu a Throseddu (CHTh) |
|---|---|
| Oes pryder ynghylch diffyg cyllid ar gyfer plismona, ai dyma pam nad oedd gorsaf heddlu Aberystwyth ar agor heddiw? | Trosolwg o gyllid ledled Cymru a Lloegr - Mae heddluoedd Cymru wedi cael eu hariannu'n well o’u cymharu â heddluoedd Lloegr. Mae gan Heddlu Dyfed-Powys fwy o swyddogion heddlu nag erioed, mae'r timau plismona bro, sy'n cynnwys swyddogion cefnogi cymunedol yr heddlu, wedi’u cadw, tra bod rhai heddluoedd yn Lloegr wedi'u diddymu oherwydd eu hanawsterau ariannol.<br><br>Mae Heddlu Dyfed-Powys hefyd yn darparu llawer o wydnwch o ran staff yr heddlu, a fydd yn cefnogi swyddogion i barhau i fod yn weithredol.<br><br>Mae'r heriau'n ymwneud â hyd y broses recriwtio pan ystyriwch y broses ymgeisio, y cyfweliad, y cliriad fetio sydd ei angen, sy'n effeithio ar y swyddogaeth adnoddau cymorth.<br><br>Ar hyn o bryd mae gan yr heddlu 25% ar ddyletswyddau cyfyngedig neu’n absennol oherwydd salwch. Mae rhai o'r rhain oherwydd beichiogrwydd; ond, mae angen dealltwriaeth ddyfnach o'r hyn sy'n atal ar rai |

| | |
|---|---|
| | swyddogion rhag cyflawni eu dyletswyddau, sef maes ffocws ar hyn o bryd. |
| A yw'r cyllid yn cael ei gytuno gan y Senedd? | Na, mae cyllid yn dod o'r Swyddfa Gartref ac o drethi. Mae tua 56% o gyllideb Heddlu Dyfed-Powys yn dod o drethi, ac oherwydd chwyddiant, mae hyn wedi cyfrannu at gynnydd mewn trethi yn ddiweddar. Ar 23 Ionawr 2026, cyhoeddodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu y praesept plismona ar gyfer 2026-27, gan gyhoeddi cynnydd o 7.47% yn elfen blismona'r dreth gyngor (tua £26.95 y flwyddyn ar gyfer eiddo Band D) i helpu i ariannu plismona lleol, cefnogi buddsoddiad mewn gwasanaethau rheng flaen, amseroedd ymateb gwell a mwy o ffocws ar atal. |